

*Patrwm cyflwyno O fis Hydref i fis Mehefin**Disgrifiad o'r modiwl*

Yn ystod y modiwl hwn bydd y myfyrwyr yn archwilio rhai o'r ffactorau seicolegol mwyaf sylweddol sy'n dylanwadu ar ddatblygiad unigolion sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon. Drwy ddadansoddi ymchwil a theori seicolegol berthnasol yn feirniadol, byddant yn ystyried dylanwadau seico-ddatblygiadol ffactorau, er enghraifft teulu, y gydberthynas rhwng hyfforddwr ac athletwr a chyfnodau pontio, ar lwybr unigolyn ym myd chwaraeon. Mae'r cwrs hwn yn addas i fyfyrwyr sydd â diddordeb mewn seicoleg chwaraeon ac ymarfer corff, neu sy'n gweithio mewn rôl hyfforddi yn y maes hwn. Er bod y cwrs yn canolbwyntio'n bennaf ar berfformiad mewn chwaraeon, mae hefyd yn ystyried rhai agweddau ar gymryd rhan mewn ymarfer corff.

Manyleb y person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â'r [fanyleb gyffredinol](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir yn y fanyleb gyffredinol, dylech feddu ar y canlynol:

- gradd neu gymhwyster cyfatebol mewn chwaraeon, ffitrwydd, ymarfer corff neu faes seicoleg cysylltiedig, sydd ag elfen gwyddor chwaraeon ac ymarfer corff sylweddol
- diddordeb brwd yn yr egwyddorion seicolegol sy'n sail i chwaraeon ac ymarfer corff
- profiad o helpu eraill i ddysgu ar lefel gradd, (e.e. drwy addysgu, hyfforddi neu oruchwylio)
- parodrwydd i ddefnyddio technolegau ar-lein.

Byddai'n fanteisiol pe byddech yn meddu ar y canlynol:

- profiad o seicoleg chwaraeon gymhwysol, ond nid yw'n hanfodol
- profiad o addysgu ar lefel 5 neu uwch y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol
- profiad o oruchwylio adolygiadau o lenyddiaeth neu draethodau hir myfyrwyr blwyddyn olaf

Manylion y modiwl – gallwch gael eglurhad llawn ar y wefan

Credydau a ddyfernir i'r myfyrwyr am gwblhau'r modiwl yn llwyddiannus:	60
Nifer o aseiniadau a gyflwynir gan y myfyrwyr:	4
Dull o gyflwyno'r aseiniadau:	2
Lefel gofynion TGCh:	2
Nifer o fyfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	20
Band cyflog:	7
Nifer o oriau yr wythnos addysgu sy'n debygol:	6

Gallai fod cyfleoedd i Ddarlithwyr Cyswllt ymgymryd â gwaith asesu cysylltiedig y ceir tâl amdano – byddwn yn cysylltu â chi ar wahân os yw hyn yn berthnasol.